# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Medi 2016

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalennau 1 - 3)

**CLA(5)-04-16 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**SL(5)007 - Rheoliad Bwyd at gyfer Grwpiau Penodol (Gwybodaeth a Gofynion Cyfansoddiadol) (Cymru) 2016**

**SL(5)010 - Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016**

**SL(5)011 - Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2016**

**SL(5)012 - Gorchymyn Ansawdd a Chyflenwi Dŵr (Ffioedd) (Ymgymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru) 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**SL(5)013 - Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016**

(Tudalennau 4 - 11)

**CLA(5)-04-16 – Papur 2** – Adroddiad
**CLA(5)-04-16 – Papur 3** – Rheoliadau
**CLA(5)-04-16 – Papur 4** – Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]

## 4 Papur(au) i'w nodi:

**Bil Cymru: Gohebiaeth gan y Pwyllgor at Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

(Tudalennau 12 - 17)

**CLA(5)-04-16 – Papur 5 –** Gohebiaeth gan y Pwyllgor at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 5 Gorffennaf 2016
**CLA(5)-04-16 – Papur 6 –** Gohebiaeth gan y Pwyllgor at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 18 Awst 2016
**CLA(5)-04-16 – Papur 7 –** Gohebiaeth gan y Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Pwyllgor, 7 Medi 2016 [Saesneg yn unig]

**Bil Cymru: Gohebiaeth gyda Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi**

(Tudalennau 18 - 20)

**CLA(5)-04-16 – Papur 8** – Gohebiaeth i Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, 14 Gorffennaf 2016 [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-04-16 – Papur 9** – Gohebiaeth gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, 20 Gorffennaf 2016 [Saesneg yn unig]

**Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer is-deddfwriaeth i gefnogi Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a dogfennau canllaw amrywiol ar arfer gorau**

(Tudalennau 21 - 23)

**CLA(5)-04-16 – Papur 10 –** Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, 11 Gorffennaf 2016

**SL(5)005 - Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016: Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

(Tudalennau 24 - 28)

**CLA(5)-04-16 – Papur 11 –** SL(5)005 - Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016 - Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 13 Gorffennaf 2016

**Gohebiaeth gan y Llywydd: Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn**

(Tudalennau 29 - 30)

**CLA(5)-04-16 – Papur 12** – Gohebiaeth gan y Llywydd, 21 Gorffennaf 2016

**Cylchoedd gwaith y Pwyllgorau: Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

(Tudalennau 31 - 36)

**CLA(5)-04-16 – Papur 13 –** Gohebiaeth gan y Llywydd i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 22 Gorffennaf 2016
**CLA(5)-04-16 – Papur 14 –** Gohebiaeth gan y Llywydd i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 25 Awst 2016
**CLA(5)-04-16 – Papur 15** – Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

## 6 Bil Cymru: Briff a diweddariad cyfreithiol

(Tudalennau 37 - 66)

**CLA(5)-04-16 – Papur 16** - Papur diweddaru [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-04-16 – Papur 17** - Briff cyfreithiol [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-04-16 – Papur 18** - Briff cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 7 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Ffyrdd o weithio

(Tudalennau 67 - 81)

**CLA(5)-04-16 - Papur 19** - Ffyrdd o weithio [Saesneg yn unig]

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

19 Medi 2016

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

12 Medi 2016

## SL(5)007 – Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau UE 609/2013 (y Rheoliad UE) yn rheoleiddio gofynion cyfansoddiadol a labelu bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, ac amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau. Mae gan y Rheoliad UE effaith uniongyrchol yng Nghymru, sy'n golygu bod y gofynion cyfansoddiadol a labelu'n gymwys yn awtomatig yng Nghymru, heb angen pasio deddfwriaeth ddomestig.

Mae Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 (Rheoliadau Cymru) yn darparu ar gyfer gorfodi rhannau penodol o'r Rheoliad UE. Mae'r Rheoliadau Cymru'n gwneud hynny trwy ddarparu ar gyfer rhoi hysbysiadau gwella i'r rhai sy'n methu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliad UE. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella'n drosedd.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Diogelwch Bwyd 1990; Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972

**Fe'u gwnaed ar:** 12 Gorffennaf 2016
**Fe'u gosodwyd ar:** 12 Gorffennaf 2016
**Yn dod i rym ar**: 2 Awst 2016

## SL(5)010 – Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio 4 cyfres o reoliadau sy'n ymwneud yn bennaf â chasglu gwybodaeth am asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen, a chyflwyno adroddiadau am y wybodaeth honno.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Addysg 1996, Deddf Addysg 2002

**Fe'u gwnaed ar:** 5 Awst 2016
**Fe'u gosodwyd ar**: 10 Awst 2016
**Yn dod i rym ar:** 1 Medi 2016

# SL(5)011 – Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2016

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (Cymru) 2015.

O dan adran 108(2) o Ddeddf Addysg 2002 caiff Gweinidogion Cymru bennu, drwy Orchymyn, y meysydd dysgu ar gyfer y cyfnod sylfaen a'r deilliannau dymunol, y rhaglenni astudio a'r trefniadau asesu y maent yn ystyried eu bod yn briodol mewn perthynas â phob un o'r meysydd dysgu hynny.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Addysg 2002

**Fe'i gwnaed ar:** 5 Awst 2016
**Fe'i gosodwyd ar**: 10 Awst 2016
**Yn dod i rym ar:** 1 Medi 2016

# SL(5)012 –Gorchymyn Ansawdd a Chyflenwad Dŵr (Ffioedd) (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) 2016

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i ffioedd fod yn daladwy, ac yn nodi sut y mae symiau ffioedd o'r fath i gael eu pennu, am arfer swyddogaeth gan arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 86 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r swyddogaethau yn ymwneud â'r ymchwiliadau a'r gofynion adrodd a ganlyn—

- gwirio trefniadau samplu a dadansoddi dŵr;
- gwirio trefniadau rheoli cyflenwad dŵr;
- ymchwilio i ddigwyddiad, achlysur, argyfwng neu fater arall sy'n deillio o ansawdd neu ddigonolrwydd dŵr;
- gwirio'r dull o ymdrin â chwynion gan ddefnyddwyr am ansawdd neu ddigonolrwydd dŵr a'r dull o adrodd ar y cwynion hynny; a
- gwirio cydymffurfedd â gofynion i roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau a'r materion hyn neu i'w hysbysu amdanynt.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf y Diwydiant Dŵr 1991

**Fe'u gwnaed ar:** 9 Awst 2016
**Fe'u gosodwyd ar**: 17 Awst 2016
**Yn dod i rym ar:** 8 Medi 2016

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl:** Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 i ddarparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad UE 2015/1375 sy’n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig. Mwydyn nematod parasitig bychan iawn yw *Trichinella*.

**Gweithdrefn:** Negyddol

**Craffu technegol**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**Craffu ar rinweddau**

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â’r offeryn hwn, ar y sail ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad.

Mae’r pwynt wedi’i grynhoi’n daclus yn y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau:

> ***Matters of Special Interest to the Constitutional Affairs Committee***
>
> *Paragraph 2 of Schedule 2 of the [European Communities Act 1972] provides a choice whether to the use the affirmative or negative procedure. Minister for Social Services and Public Health is of the view that the Regulations should follow the negative procedure as the Welsh Ministers are only providing for the effective enforcement of the EU Regulation, and have no discretion as to the substantive rights and obligations imposed by the new Commission Regulation, which is directly applicable.*

Mae defnydd o’r drefn negyddol i’w weld yn briodol i’r Rheoliadau hyn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Medi 2016**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 845 (Cy. 214)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud amrywiol ddiwygiadau i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/31 (Cy. 5)) i ddarparu ar gyfer gweithredu a gorfodi yng Nghymru Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig (OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t 7).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 845 (Cy. 214)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Awst 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *19 Awst 2016* |
| *Yn dod i rym* | *15 Hydref 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(**2**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac fe ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

---

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ("Deddf 2006") a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) ("Deddf 2008"). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o Ddeddf 2008 ac O.S. 2007/1388.

(**2**) O.S. 2005/1971. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r gorchymyn dynodi hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**1**) wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Hydref 2016.

### Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliadau'r Gymuned" yn lle "Rheoliad 2075/2005" rhodder "Rheoliad 2015/1375"; a

(b) yn y diffiniad sy'n dechrau â "mae i "Penderfyniad 2006/766""—

(i) yn lle ""Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*")" rhodder ""Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375* ")"; a

(ii) hepgorer ""Rheoliad 1109/2011" ("*Regulation 1109/2011*")".

(3) Yn Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth UE)—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*"), yn lle "Rheoliad 2075/2005" rhodder "Rheoliad 2015/1375";

(b) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*");

(c) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad 1109/2011" ("*Regulation 1109/2011*"); a

(d) ar ddiwedd yr Atodlen ychwaneger y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*") yw Rheoliad Gweithredu'r

---

(**1**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mai 2014.

(**2**) O.S. 2006/31 (Cy. 5) diwygiwyd gan O.S. 2010/893 (Cy. 92), O.S. 2011/1043, O.S. 2012/975 (Cy. 129), O.S. 2012/1765 (Cy. 225), O.S. 2013/479 (Cy. 55), O.S. 2013/3007 (Cy. 298), O.S. 2013/3049 (Cy. 308), O.S. 2014/1858 (Cy. 192), O.S. 2014/2303 (Cy. 227), O.S. 2014/3080 (Cy. 305).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(**1**).”

(4) Yn Atodlen 2 (darpariaethau Cymunedol penodedig)—

(a) yng ngholofn gyntaf y cofnod olaf, yn lle “Reoliad 2073/2005” rhodder “Reoliad 2015/1375”; a

(b) yn ail golofn y cofnod olaf, yn lle'r testun presennol rhodder y testun a ganlyn—

“Gofyniad bod rhaid i weithredwyr busnes bwyd daliadau y cydnabyddir yn swyddogol eu bod yn cymhwyso amodau tai a reolir roi gwybod i'r awdurdod cymwys am unrhyw ofyniad o Atodiad IV i Reoliad 2015/1375 nad yw bellach yn cael ei gyflawni neu unrhyw newid arall a allai effeithio ar statws *Trichinella* daliadau.”

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru.
16 Awst 2016

(**1**) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t 7.

**Explanatory Memorandum to the Food Hygiene (Wales) (Amendment) Regulations 2016**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Food Standards Agency and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Member's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Food Hygiene (Wales) (Amendment) Regulations 2016

Rebecca Evans
Minister for Social Services and Public Health

19 August 2016

**Explanatory Memorandum for the Food Hygiene (Wales) (Amendment) Regulations 2016**

## 1. Description

These Regulations replace references in the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 to the now-repealed Regulation (EC) No. 2075/2005 with references to Commission Implementing Regulation (EU) No. 2015/1375 laying down specific rules on official controls for *Trichinella* in meat ("the new Commission Regulation"). The Regulations also remove the references in the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 to Regulation (EU) No. 1109/2011, which had amended the Annex to Regulation (EC) No. 2075/2005. The new Commission Regulation came into force in August 2015, consolidated the *Trichinella*-related EU law provisions in one Regulation, and repealed Regulation (EC) No. 2075/2005 as amended. The new Commission Regulation also re-enacts two flexibilities in relation to *Trichinella* testing which had originally been included in Commission Implementing Regulation (EU) No. 1114/2014; the first allows horse carcases to be cut into a maximum of six parts in slaughterhouses or in a cutting plant on the same premises pending results from *Trichinella* testing. The second is the introduction of an additional testing method for *Trichinella* in domestic swine.

## 2. Matters of Special Interest to the Constitutional Affairs Committee

Paragraph 2 of Schedule 2 of the 1972 Act provides a choice whether to the use the affirmative or negative procedure. Minister for Social Services and Public Health is of the view that the Regulations should follow the negative procedure as the Welsh Ministers are only providing for the effective enforcement of the EU Regulation, and have no discretion as to the substantive rights and obligations imposed by the new Commission Regulation, which is directly applicable.

## 3. Legislative Background

In June 2015 the Commission put forward a proposal that Regulation (EC) 2075/2005 and all of its amendments go through a codification process in order to create a new Regulation that consolidates the previous version and all of its amendments. The new Commission Regulation, which repealed Regulation (EC) No. 2075/2005 as amended, came into force in August 2015.

The powers enabling this instrument to be made by the Welsh Ministers are those in section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972 ("the 1972 Act").

The Welsh Ministers are designated for purposes of section 2(2) of the 1972 Act in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food. The relevant designation order is the European Communities (Designation No.2) Order 2005/1971, which conferred functions on the National Assembly for Wales. Those functions were transferred to the Welsh Ministers by paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to GOWA 2006.

These Regulations are made using the negative resolution procedure.

**4. Purpose and Intended Effect of the Legislation**

These Regulations replace references in the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 to the now-repealed Regulation (EC) No. 2075/2005 with references to the new Commission Regulation. The Regulations also remove references in the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 to Regulation (EU) No. 1109/2011, which had amended the Annex to repealed Regulation (EC) No. 2075/2005.

The new Commission Regulation repealed Regulation (EC) No. 2075/2005 as amended and consolidated the provisions at EU level that have applied since 2005 remaking them in the new codified Commission Regulation.

This codification includes minor changes to the specific rules on the controls for *Trichinella* that were initially made in Commission Implementing Regulation (EU) 1114/2014. These changes introduced two new flexibilities; the first allows horse carcases to be cut into a maximum of six parts in slaughterhouses or in a cutting plant on the same premises pending results from *Trichinella* testing. The second is the introduction of additional testing method for *Trichinella* in domestic swine.

**5. Consultation**

The Food Standards Agency carried out a shortened six-week consultation that ran from the 25 January to 7 March 2016. There were no responses to the consultation in Wales.

**6. Regulatory Impact Assessment**

A Regulatory Impact Assessment has not been prepared to accompany these Regulations as it consolidates existing legislation, the latest of which was the subject of a full assessment in 2014, and does not change the requirements. As the interpretation of the Regulation remains the same and the flexibilities have no negative impact on UK practices, a further Regulatory Impact Assessment is therefore not required.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Cymru
Gwydyr House
Whitehall
London
SW1A 2NP

5 Gorffennaf 2016

Annwyl Alun

**Bil Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mehefin, a anfonwyd at fy rhagflaenydd, David Melding AC, ac a ddaeth i law ar 5 Gorffennaf.

Fel y gwyddoch, rydym wedi mynegi ein pryder difrifol a'n siom nad ydych, hyd yma, wedi gallu derbyn ein gwahoddiad i roi tystiolaeth ar Fil Cymru – darn o ddeddfwriaeth gyfansoddiadol sylweddol sydd â goblygiadau arwyddocaol i'r Cynulliad.

Cafodd ein pryder ei ddwysáu gan ddau ddatblygiad: yn gyntaf, cyflymder y gwaith craffu yn Nhŷ'r Cyffredin, sy'n lleihau'r cyfnod o amser ar gyfer rhoi ystyriaeth ystyriol a phwyllog i ddarn sylweddol o gyfraith gyfansoddiadol; yn ail, gan y dystiolaeth yr ydym eisoes wedi'i gael ar y Bil gan y Prif Weinidog ac ymarferwyr cyfreithiol ac academyddion enwog, y cyfeiriwn atynt isod.

Er ein bod yn sylweddoli eich bod yn brysur iawn, rydym wedi bod, ac yn parhau i fod yn hynod hyblyg o ran dyddiadau ac amseroedd. Rydym hefyd wedi rhoi'r cyfle ichi roi tystiolaeth drwy gynhadledd fideo fel dewis arall, a gobeithiwn y gall hyn fod yn bosibl o hyd os na allwch fod yn bresennol yn bersonol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Rydym yn ymwybodol eich bod yn dod i annerch y Cynulliad ar 6 Gorffennaf, ac rydym yn dal i fod yn ansicr pam na allwch roi tystiolaeth inni ar y diwrnod hwnnw, yn enwedig yn wyneb y dyhead clir a fynegwyd gennych – fel eich rhagflaenydd a wnaeth ymddangos gerbron y Pwyllgor hwn – i fabwysiadu agwedd agored ac adeiladol tuag at y Bil.

Mae'r Bil yn ddatblygiad cyfansoddiadol sylweddol i Gymru, ac mae'n hanfodol bod y Cynulliad yn cael y cyfle i ystyried y Bil a'r goblygiadau i Gymru. Rydym wedi creu perthynas gyda rhanddeiliaid allweddol a dinasyddion Cymru, sydd o gymorth i lywio ein gwaith craffu, a theimlwn y bydd dod â'r arbenigedd hwn i graffu ar y Bil, o gymorth i Lywodraeth y DU sicrhau'r setliad parhaus a chadarn yr ydych chi, a ninnau, yn ei geisio.

Rydym eisoes wedi clywed tystiolaeth glir ac awdurdodol y gallai'r Bil, er ei fod yn welliant i'r Bil drafft mewn rhai mannau, effeithio'n negyddol ar y setliad datganoli presennol, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Mae pryderon sylweddol yn parhau ynglŷn â chymhlethdod diangen y Bil, ei natur barhaol, a'r posibilrwydd y bydd yn effeithio'n andwyol ar allu'r Cynulliad i ddeddfu mewn modd cydlynol a chydgysylltiedig. Credwn y byddai'r cyfle i ymchwilio i'r materion hyn gyda chi'n uniongyrchol o fudd i ddatblygiad y Bil a byddai o gymorth i gyflawni ein nod cyffredin o geisio setliad teg i Gymru.

Os na allwn eich darbwyllo i ymddangos ger ein bron i egluro effaith y Bil ar y setliad datganoli presennol, bydd yn rhaid i'n hadroddiad egluro bod eich penderfyniad i beidio â bod yn bresennol wedi effeithio ar hyn.

Gobeithiaf y byddwch yn ymateb yn ffafriol i'r cais pellach hwn.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Cymru
Gwydyr House
Whitehall
Llundain
SW1A 2NP

18 Awst 2016

Annwyl Alun

**Bil Cymru**

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn ceisio trefnu i gymryd tystiolaeth gennych chi am Fil Cymru.

Roedd yn galonogol clywed eich ymateb i'n gwahoddiad yn ystod y ddadl ar Araith y Frenhines yn y Cyfarfod Llawn ym mis Gorffennaf. Hoffem drefnu dyddiad sy'n dderbyniol i chi a ninnau, er mwyn gwella'r ddeddfwriaeth bwysig hon.

Mae fy mhwyllgor wedi bod yn dilyn yn ofalus y broses o graffu ar y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin. Wrth wneud hyn, rydym wedi bod yn monitro a yw'r materion a gododd rhanddeiliaid wedi'u hystyried yn ddigonol. Rydym yn credu bod nifer o faterion allweddol y byddai'n fuddiol eu trafod ymhellach yn uniongyrchol â chi.

Mae natur y broses graffu yn San Steffan yn golygu nad yw rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wedi cael cyfle i gyfrannu'n uniongyrchol ac yn gyhoeddus at y drafodaeth seneddol ar y Bil. Fodd bynnag, maent wedi gallu gwneud hyn fel rhan o'n gwaith o graffu'n fanwl ar y Bil, a hoffem sicrhau bod eu sylwadau'n cael eu hystyried wrth ddatblygu fersiwn derfynol o'r Mesur. Rydym yn gwybod bod rhanddeiliaid wedi chwarae rhan hanfodol yn y broses o fireinio'r Bil drafft, ac

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

mae'n amlwg bod rhai o'r gwelliannau yn y Bil presennol yn seiliedig ar eu cyfraniadau nhw'n uniongyrchol. Rydym yn credu y gellid gwella'r Bil ymhellach pe baech yn siarad â ni'n gyhoeddus.

Er ein bod yn croesawu'ch cynnig i siarad â'r Pwyllgor yn breifat, o ystyried bod hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth gyfansoddiadol mor arwyddocaol a fydd, gobeithio, yn setliad cryf a pharhaol, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod ein trafodaethau'n cael eu cynnal yn gyhoeddus. Yn ogystal â sicrhau bod y broses graffu yn dryloyw, byddai'n cadw at ymrwymiad y cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y Bil yn iawn.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'n casgliadau'n gynnar ym mis Hydref, gan gymryd tystiolaeth gennych chi cyn hynny. Fel y nodwyd eisoes, gallwn fod yn hyblyg er mwyn cyd-fynd â'ch dyddiadur chi ac, os oes angen, gallwn gymryd tystiolaeth drwy gyfrwng fideogynadledda.

Gobeithio y gallwn eich croesawu i'r Pwyllgor ym mis Medi.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Wales Office
Swyddfa Cymru

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales

Gwydyr House
London, SW1A 2NP

Tŷ Gwydyr
Llundain, SW1A 2NP

1 Caspian Point
Cardiff Bay, CF10 4DQ

1 Pwynt Caspian
Bae Caerdydd, CF10 4DQ

www.walesoffice.gov.uk

Huw Irranca-Davies AM
Chair, Constitutional and Legislative
Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff
CF99 1NA

seneddCLA@assembly.wales

Ref: 61SOS 16

7 September 2016

Dear Huw,

**WALES BILL**

Thank you for your letter of 18 August regarding the Constitutional and Legislative Affairs Committee's consideration of the Wales Bill. Your office has subsequently been in touch with mine to arrange for me to brief the Committee on the Wales Bill in private, via video conference.

I want work on the Bill to continue in the spirit of close co-operation that has been evident thus far and welcome the Committee's scrutiny of the Bill. However, the Wales Bill will conclude its Commons stages early next week, by when the UK Government will have confirmed policy on all its key provisions and MPs will have had a number of opportunities to modify the legislation. I intend to meet with Assembly Party Leaders individually and am happy to meet you on a similar basis.

More widely, I simply do not agree with your comments that stakeholders outside Parliament have not had sufficient opportunity to contribute to debate on the Bill. We published the Bill in draft almost twelve months ago to enable wide-ranging public debate on the future shape of Welsh devolution. We listened to, and acted on points raised during that debate and have continued to seek the views of stakeholders about further improvements.

The draft Bill also benefitted from pre-legislative scrutiny by the House of Commons Welsh Affairs Committee, and from scrutiny by your Committee in the last Assembly. All in all, this Wales Bill has been much more thoroughly scrutinised than its predecessors.

I suggest your diary secretary contacts mine to agree a mutually convenient date for me to brief you.

**Rt Hon Alun Cairns MP**
**Secretary of State for Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

The Rt Hon. the Lord Lang of Monkton
Constitution Committee
House of Lords

14 July 2016

Dear Lord Lang

**UK Government's Wales Bill**

As you may be aware, the National Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee is currently undertaking an inquiry into the UK Government's Wales Bill, which was introduced into the House of Commons on 7 June 2016 and has just completed its Committee Stage.

Our predecessor Committee in the Fourth Assembly examined the draft Wales Bill and I enclose a copy of its report.

While some of the concerns expressed in that report appear to have been addressed to some extent, the evidence we have taken to date from legal professionals and academics suggests that many have not.

There is still concern that some of the Assembly's legislative powers are being returned to Westminster. The Bill amends existing Government of Wales Acts and, in reserving powers, does so by referring to the subject matter of some 50 Acts of Parliament. As a result, there remain concerns that the resulting law will be exceptionally complex.

We are therefore becoming increasingly concerned that the Wales Bill, whether intentionally or not, could have a detrimental impact on the laws that are

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

proposed and made in Wales, as well hindering the accessibility of those laws to Welsh citizens.

As part of our consultation on the Bill, we are seeking written evidence over the summer and are using an online engagement platform to gauge the views of stakeholders during the passage of the Bill through Parliament.

My purpose in writing is to enquire whether it would be possible to meet with you to discuss the implications of the Bill for the Assembly in advance of any work you may undertake once the Bill has started its passage through the House of Lords. If it would be helpful, we could share our findings on the current Bill with you informally.

I look forward to hearing from you soon.

Yours sincerely

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
**Chair**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

HOUSE OF LORDS
Select Committee on the Constitution

House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel: 020 7219 1228
constitution@parliament.uk
www.parliament.uk/lords

Huw Irranca-Davies
Chair
Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff
CF99 1NA

20 July 2016

Dear Mr Irranca-Davies,

Thank you for your letter of 14 July on the Wales Bill currently passing through the House of Commons.

I would be happy to meet with you to discuss your concerns about the Bill in advance of its introduction into the House of Lords (which I understand is likely to be in October).

However, I believe it would be useful for the Constitution Committee as a whole to discuss these issues with you and your colleagues. Consequently, I wonder whether it might be possible for you and the other members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee to meet with the Constitution Committee in an informal round-table discussion to talk through your findings on the Bill. The Constitution Committee is likely to undertake its legislative scrutiny of the Wales Bill in mid-October, and so it would be helpful if such a meeting could be arranged in either September or early-October.

Perhaps your committee staff could contact Antony Willott, Clerk to the Constitution Committee, to discuss the practicalities of such a meeting, and to come up with some suitable dates.

Yours sincerely,

Ian Lang.

The Rt Hon. the Lord Lang of Monkton, DL
Chairman of the Constitution Committee

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac amrywiol ddogfennau canllaw arferion gorau** |
| **DYDDIAD** | **11 Gorffennaf 2016** |
| **GAN** | **Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith** |

Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016 gan ddod yn gyfraith yn nyddiau olaf y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn torri tir newydd ac mae wedi rhoi Cymru ar flaen y gad ymhlith cenhedloedd y DU o ran gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol.

O'r dechrau un, y bwriad wrth fynd ati i ddatblygu'r Ddeddf oedd gosod conglfaen ar gyfer pecyn ehangach o bolisïau, cyngor a chanllawiau — i gyd yn seiliedig ar *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu rheoli'n ofalus, a hynny er mwyn i'r amgylchedd hwnnw fedru parhau i ddarparu'r llu o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'n eu rhoi i Gymru, gan ymateb i anghenion ein cenedl fodern ar yr un  pryd. O gael ei warchod yn dda a'i reoli'n gynaliadwy, bydd yr amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at gyrraedd y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn helpu i greu'r Cymru a garem yn y dyfodol.

Weddill y flwyddyn hon a dechrau 2017, byddwn yn cynnal cyfres o ymgyngoriadau er mwyn ceisio barn unigolion a chyrff sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol, a barn y cyhoedd, am amryfal fesurau y bwriedir iddynt ategu a chefnogi darpariaethau'r Ddeddf. Bydd y cyntaf o'r ymgyngoriadau hyn yn cael ei lansio heddiw, 11 Gorffennaf 2016 a bydd yn para am ddeuddeg wythnos, gan ddod i ben ar 3 Hydref.

Mae rhan gyntaf yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau am gynigion i gyflwyno pedwar darn o is-ddeddfwriaeth. Mae tri ohonynt yn gysylltiedig â chyflwyno rheoliadau gweithdrefnol a bennir yn y Ddeddf. Maent yn ymdrin â:

- y gyfradd llog ar gostau sy'n ddyledus yn sgil gwaith brys ar adeiladau rhestredig

- y weithdrefn ar gyfer hawlio digollediad yn sgil hysbysiadau stop dros dro i atal gwaith nas awdurdodwyd,
- gweithdrefn symlach ar gyfer cael cydsyniad heneb gofrestredig.

Mae'r pedwerydd darn o is-ddeddfwriaeth yn teilyngu mwy o sylw. Yn ystod yr ymgynghori a'r gwaith ymchwil a wnaed wrth ddatblygu'r Ddeddf, dywedodd nifer o'r rhanddeiliaid eu bod o blaid cyflwyno asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth a'u gwneud yn rhan annatod o'r broses gwneud cais am gydsyniad ar gyfer gwaith ar asedau hanesyddol dynodedig. Mae asesu'r effaith ar dreftadaeth yn broses strwythuredig i wneud yn siŵr bod arwyddocâd ased hanesyddol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a dylunio cynigion ar gyfer newid. Bydd materion yn ymwneud â dyluniad a mynediad yn cael sylw hefyd wrth gynnal y gwerthusiad ehangach o effaith y gwaith arfaethedig.

Bydd y rheoliadau arfaethedig yn gwneud datganiad am yr effaith ar dreftadaeth, a fydd yn grynodeb o ganlyniadau'r asesiad, yn elfen ofynnol o unrhyw gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth.

Mae'n bwysig bod yr asesiad o'r effaith ar dreftadaeth yn gymesur ag arwyddocâd yr ased hanesyddol ac â maint y newid arfaethedig. Paratowyd dogfen ganllawiau, *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, i helpu perchenogion, meddianwyr ac asiantiaid i ddeall y broses asesu ac i baratoi datganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Mae'r ddogfen ganllawiau honno'n rhan o'r ymgynghoriad hefyd.

Mae ail ran yr ymgynghoriad yn ceisio barn am bump o ddogfennau canllawiau eraill ar arferion gorau:

- *Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*
- *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*
- *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*
- *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*
- *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*

Wrth i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 gael ei pharatoi, cododd Aelodau Cynulliad, rhanddeiliaid a'r cyhoedd amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Byddai modd mynd i'r afael â rhai ohonynt drwy gyfrwng y ddeddfwriaeth honno. Mewn sawl achos, fodd bynnag, roedd polisïau, cyngor a chanllawiau newydd a oedd yn seiliedig ar yr athroniaeth a'r arferion sydd ohoni ym maes cadwraeth, yn ymateb mwy priodol ac effeithiol.

Ar yr un pryd â'r ymgynghoriad hwn, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ceisio barn am gyngor cynllunio newydd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, sydd i'w weld mewn fersiwn ddrafft o *Nodyn Cyngor Technegol 24*. Mae'r ymgynghoriad hwnnw'n dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn wedi'i diweddaru o Bennod 6 yn *Polisi Cynllunio Cymru*, sy'n ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 13 Mehefin.

Yr ymgyngoriadau hyn yw cam cyntaf rhaglen a fydd, dros y ddwy flynedd nesaf, yn rhoi casgliad integredig o bolisïau, cyngor a chanllawiau i Gymru ar yr amgylchedd hanesyddol. Gan adeiladu ar y sylfaen ddeddfwriaethol a osodwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, bydd hyn yn sefydlu systemau cyfoes a chymesur ar gyfer rheoli newid mewn modd gofalus a chyson, er mwyn i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol fedru parhau i fwynhau ac i werthfawrogi'n hamgylchedd hanesyddol gwerthfawr.

http://gov.wales/consultations/cultureandsport/proposals-for-secondary-legislation-to-support-the-historic-environment-wales-act-2016/?lang=cy

http://gov.wales/consultations/planning/proposed-technical-advice-note-24-the-historic-environment/?skip=1&lang=cy

# Eitem 4.4

Lesley Griffiths AC / AM
Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

13 Gorffennaf 2016

Annwyl Huw

Rwyf wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (Memorandwm) mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygidiadau Amrywiol) 2016 ("y Rheoliadau") a osodwyd/fydd yn cael eu gosod yn y Senedd ar 12 Gorffennaf gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ran DEFRA ar gyfer y DU i ddod i rym ar 3 Awst 2016. Mae'r rheoliadau yn diwygio adran 33(13) o Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 ac adran 75(5) Deddf Bil y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill. Er fy mod wedi gosod y Memorandwm, nid wyf yn bwriadu gosod Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol.

Mae'n rhaid i ynni o gyfleusterau gwastraff sy'n benodol ar gyfer prosesu gwastraff soled trefol fodloni 'trothwy achredu R1', sydd wedi ei bennu yn Atodiad II Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE (Cyfarwyddeb 2008/98/CE) ("y Gyfarwyddeb Gwastraff"), er mwyn cael ei gyfri fel adfer. Bydd hyn yn caniatâu i gyfleusterau dderbyn a phrosesu gwastraff o Aelod Wladwriaethau eraill er nad yw cyfleusterau llosgi nad ydynt yn R1 yn gallu gwneud hyn. Mae'r Rheoliad yn rhoi'r newidiadau a wnaethpwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2015/1127 ar waith, sy'n diwygio Atodiad II y Gyfarwyddeb Gwastraff drwy ychwanegu Ffactor Cywiro'r Hinaswdd i'r fformiwla R1. Bydd hyn yn helpu i ynni o weithrediadau gwastraff mewn hinsawdd cynhesach ledled yr UE, gael ei gyfri fel adfer ac i dderbyn yr achrediad R1 gan ei fod yn dechnegol yn anoddach i gynhyrchu trydan o wastraff mewn hinsawdd cynnes o gymharu â hinsawdd oerach. Mae'n ofynnol i'r DU drosi Cyfarwyddeb y Comisiwn 2015/1127 erbyn 31 Gorffennaf 2016.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud newidiadau canlyniadol i nifer o offerynau statudol a dwy Deddf Seneddol i gyfnewid cyfeiriadau at 'Gyfarwyddeb Wastraff' am gyfeiriad i'r Gyfarwyddeb Wastraff fel a ddiwygiwyd yng Nghyfarwyddeb yr UE 2015/1127. Mae'r Memorandwm (mae copi ohono wedi ei amgáu) yn egluro yn fanylach y cefndir i'r diwygiadau i'r EPA a'r MCAA sy'n dechnegol eu natur.



Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Rwyf wedi gosod y Memorandwm yn unol â'r gofyniad o dan Orchymyn Sefydlog (SO) 30A i "aelod o Lywodraeth Cymru ...[i] osod memorandwm ("memorandwm cydsyniad offeryn statudol") sy'n gysylltiedig ag unrhyw offeryn statudol perthnasol sy'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU". Rwy'n ystyried y Rheoliadau fel offeryn statudol perthnasol gan eu bod yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â Chymru gan ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac nid ydynt yn ddapariaethau cysylltiedig na chanlyniadol sy'n gysylltiedig â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ar gyfer DEFRA yn yr achos hwn, y dewis i benderfynu a yw'r offeryn yn cael ei wneud o dan weithdrefn negyddol neu gadarnhaol. O ystyried mai newidiadau bychain a thechnegol yw' rhain i weithredu ymrwymiadau yr UE, gwnaethpwyd y penderfyniad gan Defra i ddiwygio'r ddwy Ddeddf Seneddol i wneud newidiadau yn eu hofferyn drwy'r weithdrefn negyddol. Felly, cafodd y Rheoliadau eu gwneud ar yr un pryd ag y cawsant eu gosod, ac ar yr amod nad yw unrhyw Aelod Seneddol yn "gweddïo" yn eu herbyn, byddant yn dod i rym ar 3 Awst. Chwi sydd i benderfynu a ydych yn dymuno, fel y pwyllgor cyfrifol y cyfeirir atynt o dan Reol Sefydlog 30A, ystyried ac adrodd ar y Memorandwm.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus a ddylem fynd ymlaen i gyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A.10, i'w drafod wedi i'r 35 niwrnod sy'n cael ei ganiatâu ar gyfer craffu gan y pwyllgor cyfrifol fynd heibio. Nid oes gofyniad i Lywodraeth Cymru wneud hynny, ond fel arfer, byddem yn cyflwyno cynnig i'w drafod fel y gall y Cynulliad roi cydsyniad, neu beidio â'i roi, cyn i'r offeryn statudol perthnasol gael ei wneud.

Yn yr achos hwn, bydd y Rheoliad eisoes wedi cael ei wneud cyn i unrhyw drafodaeth o'r fath gael ei chynnal gan y Cynulliad, rwyf wedi penderfynu na fyddaf yn mynd ymlaen i osod cynnig i'w drafod gan y byddai unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud gan y Cynulliad mewn trafodaeth yn ddiweddarach yn annhebygol o gael unrhyw effaith ymarferol. Byddai'n rhaid ystyried pob achos ar ei ragoriaethau, fodd bynnag, yn y Rheoliadau hyn, mae'r diwygiadau dan sylw yn rhai bychain ac yn dechnegol eu natur, ac nid ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau mawr i bolisïau, ac yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar gwmnïau yng Nghymru. Nid wyf yn credu bod gwerth cynnal trafodaeth yn y Cynulliad ar a ddylid rhoi caniatâd i roi darpariaethau mewn Rheoliadau sydd eisoes wedi eu gwneud, a ble y mae'r ddarpariaeth dan sylw yn ganlyniadol ac nid yn newid polisi sylweddol. Mae wrth gwrs yn dal yn agored i unrhyw Aelod Cynulliad, os ydynt yn teimlo'n gryf y dyla'ir Memorandwm gael ei drafod, i osod cynnig i drafod hyn yn y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

## MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

### Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) 2016

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn ("Memorandwm") yn cael ei osod o dan Orchymyn Sefydlog 30A.2. Mae Gorchymyn Sefydlog 30A yn pennu bod yn rhaid i Femorandwm gael ei osod a Chynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("Cynulliad") os yw offeryn statudol y DU yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) 2016 eu gosod gerbron y Senedd ar 12 Gorffennaf 2016 a byddant yn dod i rym ar 3 Awst 2016. Mae'r Rheoliadau i'w gweld ar:

http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/738/contents/made

**Crynodeb o'r Rheoliadau a'u nod**

3. Nod Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) 2016 ("y Rheoliadau) yw diwygio offerynau statudol a Deddfau perthnasol y DU i roi y newidiadau i'r ddeddfwriaeth gwastraff ar waith sy'n ofynnol o ganlyniad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2015/1127. Mae'r Gyfarwyddeb hon yn gwneud newidiadau i'r fformiwla effeithiolrwydd ynni 'R1' o fewn Atodiad II Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE (2008/98/EC) ("Y Gyfarwyddeb Wastraff").

4. Mae Atodiad II y Gyfarwyddeb Wastraff yn nodi rhestr nad yw'n cynnwys popeth o weithrediadau adfer, ac fe gyfeirir atynt fel R1 i R13. O dan y Gyfarwyddeb Wastraff, mae adfer yn golygu "unrhyw weithred y mae ei phrif ganlyniad yn arwain at roi defnydd buddiol i wastraff drwy ddisodli deunyddiau eraill a ddefnyddid fel arall i gyflawni swyddogaeth benodol, neu wastraff sy'n cael ei baratoi i gyflawni'r swyddogaeth honno, yn y gwaith neu yn yr economi ehangach".

5. Mae gweithrediadau sy'n defnyddio gwastraff yn bennaf fel tanwydd i gynhyrchu ynni yn cael eu cyfrif fel R1 o dan Atodiad II. Caiff cyfleuster llosgi sydd ar gyfer prosesu gwastraff soled trefol yn benodol yn cael ei gyfrif fel adfer dim ond os yw yn bodloni trothwy effeithiolrwydd ynni penodol sy'n cael ei alw'n gyffredinol yn fformiwla R1. Mae Cyfarwyddeb y Comisiwn 2015/1127 7 yn diwygio Atodiad II y Gyfarwyddeb Wastraff drwy ddefnyddio Ffactor Cywiro'r Hinsawdd (CCF) i fformiwla R1.

6. Er mwyn trosi Cyfarwyddeb 2015/1127, mae'n rhaid gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth y DU er mwyn i ddeddfwriaeth yr UE gael yr effaith iawn, yn rhannol oherwydd y caiff deddfwriaeth ddomestig ei drafftio yn y fath fodd na fydd yn cael ei diweddaru'n awtomatig pan fydd deddfwriaeth berthnasol yr UE yn newid. Byddai angen i ddeddfwriaeth sy'n cynnwys cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Wastraff gael ei diweddaru i sicrhau bod y

cyfeiriadau yn gysylltiedig â'r Gyfarwyddeb Wastarff fel a ddiweddarwyd gan Gyfarwyddeb yr UE 2015/1127.

7. O ganlyniad i'r newidiadau a wnaethpwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2015/1127, mae'r Rheoliadau ymysg pethau eraill yn gwneud newidiadau i Adran 33 Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990) ac Adran 75 Deddf y Môr a Mynediad i'r Amgylchedd 2009. Mae Adran 33(13) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae Adran 75(5) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Amgylchedd 2009 yn berthnasol i'r DU.
8. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud newidiadau i nifer o offerynau statudol yn y DU, ar wahân i baragraffau 6, 8-10 a 12 y Rheoliadau sy'n berthnasol i Loegr yn unig.

**Darpariaethau i'w gwneud gan y Rheoliadau y mae angen cydsyniad iddynt**

9. Mae Adran 33(13) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cael ei ddiwygio gan baragraff 2 y Rheoliadau sy'n disodli y cyfeiriad at Atodiad I neu II o'r Gyfarwyddeb Wastraff i'r Gyfarwyddeb Wastraff fel a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1127. Felly hefyd, caiff adran 75(5) Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ei ddiwygio gan baragraff 3 y Rheoliadau sy'n disodli'r cyfeiriad at y Gyfarwyddeb Wastraff gan y Gyfarwyddeb a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1127.

10. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff 9 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran ei fod yn cyfeirio at ddiogelu'r amgylchedd, gan gynnwys llygredd, niwsansau, sylweddau peryglus, ac atal, lleihau, casglu, rheoli, trin a gwaredu gwastraff o dan baragraff 6 (Amgylchedd) o Ran 1, Atodlen 7, Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Pam y mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon?**

11. Mae'r diwygiadau yn angenrheidiol er mwyn i'r newidiadau diweddar i'r Gyfarwyddeb Wastraff, fel a amlinellir ym mharagraff 3, gael effaith. Mae'r newidiadau yn rhai bach a thechnegol eu natur ac nid ydynt yn rhoi unrhyw ddisgresiwn o ran polisi neu ddrafftio fel rhwng Cymru a'r gweinyddiaethau eraill ym Mhrydain.

12. Barn Llywodraeth Cymru yw ei fod yn briodol i ddelio gyda'r newidiadau i Ddeddf Diogelu yr Amgylchedd 1990 a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn y Rheoliadau hyn gan mai dyma'r dull mwyaf ymarferol a chymesur o wneud y newidiadau hyn ar gyfer Cymru ochr yn ochr â'r newidiadau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig eraill ym Mhrydain. Mae hyn yn sicrhau dull cyffredinol o drosi Cyfarwyddeb y Comisiwn ledled Prydain.

13. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn gysylltiedig â rheoliadau a osodwyd yn Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol sy'n dod yn gyfraith yn awtomatig os nad oes gwrthwynebiad gan aelod o un o'r Tai Cyffredin. Os nad oes gwrthwynebiad o'r fath, byddai'r rheoliadau yn dod i rym ar 3 Awst 2016.

## Goblygiadau ariannol

14. Nid oes goblygiadau ariannol yn cael eu rhagweld i Lywodraeth Cymru.

**Lesley Griffiths AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Gorffennaf 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

National Assembly for Wales
Business Committee



Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Gorffennaf 2016

Annwyl Gadeirydd

**Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Pwyllgor Busnes wedi dechrau trafod sut y gellir sicrhau mwy o amrywiaeth yn ystod amser y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Ysgogwyd hyn yn rhannol gan adroddiad etifeddiaeth Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad, a oedd yn cynnwys yr argymhelliad a ganlyn:

"Dylai'r Pwyllgor Busnes newydd ystyried amserlennu busnes mwy amrywiol yn ystod amser nad yw ar gyfer y Llywodraeth, gan gynnwys mwy o fusnes pwyllgorau i wella integreiddio rhwng y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau. Gallai mathau o fusnes gynnwys, er enghraifft, datganiadau ar ddechrau ymchwiliadau pwyllgor, adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau, pynciau dadleuon a ddewisir gan bobl ifanc a rhanddeiliaid eraill, a chyfres o ddadleuon ar thema benodol."

Rwy'n rhannu'r farn y gellir defnyddio amser yn y Cyfarfod Llawn yn fwy effeithiol. Yn ystod tymor yr hydref, byddaf yn cyflwyno cynigion i Reolwyr Busnes eu hystyried, gyda'r bwriad o ehangu ar gyfleoedd i Aelodau graffu ar y Llywodraeth a chynrychioli eu hetholwyr.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes wedi gwneud penderfyniad cynnar y byddai'n hoffi gweld mwy o integreiddio rhwng y Cyfarfod Llawn a gwaith y pwyllgorau, ac mai un ffordd o wneud hynny fyddai galw ar Gadeiryddion pwyllgorau i wneud datganiadau yn y Cyfarfod Llawn o bryd i'w gilydd ynghylch gwaith a blaenoriaethau eu pwyllgorau. Er mai rôl i'r Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'u pwyllgorau, yw penderfynu pryd yr hoffent wneud datganiad, mae'r cyfleoedd yr hoffem eu hannog yn y lle cyntaf yn cynnwys dechrau ymchwiliadau, o bosibl er

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSiambr@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/PwyllgorBusnes
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddChamber@assembly.wales
www.assembly.wales/BusinessCommittee
0300 200 6565

mwyn helpu i lywio gwaith y pwyllgor, ar ôl gorffen gwaith dilynol, neu pan fydd pwyllgor yn ystyried ei raglen waith ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

Credwn y byddai datganiadau o'r fath yn adnodd defnyddiol i godi proffil gwaith pwyllgorau ymysg Aelodau eraill a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, ac yn caniatáu mwy o ymgysylltiad ag ymchwiliadau'r Pwyllgor, a dealltwriaeth o'r ymchwiliadau hyn, gan y rhai nad ydynt yn gysylltiedig â hwy yn uniongyrchol.  Os defnyddir y datganiadau hyn mewn modd priodol, rydym yn hyderus y gallai datganiadau o'r fath, a'r ymatebion iddynt, fod yn ddull gwerthfawr o lywio gwaith a blaenoriaethau'r pwyllgorau.  Byddai diben y datganiadau hyn, felly, yn wahanol i ddiben y dadleuon ar adroddiadau pwyllgor, sy'n nodwedd gyfarwydd o fusnes y Cynulliad yr ydym am iddi barhau.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn cyfarfod bob wythnos i gytuno ar drefn busnes y Cynulliad, ac er y gellir gwneud datganiadau heb rybudd gyda fy nghaniatâd, byddem fel arfer yn disgwyl i unrhyw gais i neilltuo amser ddod i law o leiaf wythnos cyn gwneud y datganiad er mwyn i'r eitem ymddangos ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried sut y gallech chi a'ch Pwyllgor ddefnyddio datganiadau mewn Cyfarfod Llawn, a byddwn yn eich annog i gynnig datganiadau yn y dyfodol agos.  Yr wyf yn ymwybodol bod nifer o bwyllgorau yn lansio ymchwiliadau newydd ac yn penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer tymor yr hydref, felly mae'r cyfnod i ddod yn cynnig cyfle perffaith i dreialu datganiadau pwyllgor.  Gobeithiaf y gallwch chwarae eich rhan mewn sicrhau llwyddiant y fenter hon.

Elin Jones

Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

National Assembly for Wales
Business Committee



David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Gorffennaf 2016

Annwyl David

**Newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

Fel y gwyddoch, ar 28 Mehefin 2016, sefydlodd y Pwyllgor Busnes Bwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn i leddfu'r pwysau ar bwyllgorau eraill ac i graffu ar faterion a allai godi sydd o bwys cyhoeddus ond nad ydynt o reidrwydd wedi'u datganoli. Yn sgil canlyniad refferendwm yr UE, mae'r Rheolwyr Busnes wedi ailedrych ar gylch gorchwyl y Pwyllgor ac wedi cytuno y dylai flaenoriaethu gwaith sy'n gysylltiedig â'r effaith y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ei chael ar Gymru. Penderfynwyd, felly, y dylid newid teitl y Pwyllgor i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Cytunodd y Cynulliad i'r newid hwn ar 13 Gorffennaf 2016.

Rwyf yn ysgrifenu atoch yn awr gyda rhagor o fanylion ynghylch eich cylch gwaith, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Busnes, sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad amgaeedig. Bydd y Pwyllgor Busnes yn cyflwyno cynnig i ddiwygio eich cylch gwaith yn ffurfiol yn unol â hynny i'w gymeradwyo gan y Cynulliad ddydd Mercher 14 Medi.

Gan fod newid canlyniadol i gylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

Elin Jones

**Elin Jones AC, Llywydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Busnes**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSiambr@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/PwyllgorBusnes
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddChamber@assembly.wales
www.assembly.wales/BusinessCommittee
0300 200 6565

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

25 Awst 2016

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

**Y goblygiadau i Gymru oherwydd i'r DU benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd**

Fel y gwyddoch, sefydlwyd pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol i leihau'r pwysau ar bwyllgorau eraill ac i graffu ar faterion eraill sydd o bwys i'r cyhoedd.

Gwnaeth y Rheolwyr Busnes ailystyried cylch gwaith y pwyllgor hwn yn sgil canlyniad Refferendwm yr UE, gan gytuno y dylai flaenoriaethu gwaith ar yr effaith y bydd gadael yr UE yn ei chael ar Gymru.

O ganlyniad, newidiwyd ei enw i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ('y Pwyllgor Materion Allanol').

Hoffwn dynnu eich sylw at y cylch gwaith dros dro a gynigir gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol:

1. Archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r UE ac yn

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPDWG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPDWG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddRPL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddRPL
0300 200 6565

nhrefniadau gwledydd y DU ar ôl gadael ar gyfer materion perthnasol o ran polisi, cyllid a deddfwriaeth.

2. Cydlynu gweithgarwch ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt 1 uchod.
3. Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11.
4. Ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Mae rhagor o wybodaeth yn adroddiad y Pwyllgor Busnes ar ddiwygio cylch gwaith y Pwyllgor, sydd wedi'i amgáu gyda'r llythyr hwn.

Bydd y Pwyllgor Busnes yn cyflwyno cynnig i ddiwygio cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol yn ffurfiol er mwyn i'r Cynulliad gytuno arno ddydd Mercher 14 Medi 2016.

Bydd angen i ni arfer dull cydlynol wrth i wahanol bwyllgorau'r Cynulliad graffu ar y materion hyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi a yw eich pwyllgor yn bwriadu gwneud unrhyw waith sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE, neu unrhyw agwedd arall ar ein cylch gwaith. Hoffwn hefyd gynnig gwahoddiad agored i chi fynychu unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Materion Allanol sy'n ymwneud â materion sy'n rhan o gylch gwaith eich pwyllgor chi.

Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu perthynas waith adeiladol â chi wrth i'r gwaith pwysig hwn fynd yn ei flaen.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar adolygu cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

## Diben y Pwyllgor

Bydd angen i'r Pwyllgor sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu mewn trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch:

- penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd;
- perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol; a'r
- trefniadau o fewn y DU ar ôl gadael yr UE o ran polisïau, cyllid a deddfwriaeth sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd.

Yn gryno, mae'r gwaith hwn yn ymwneud â thri lle sy'n ddibynnol ar ei gilydd: Caerdydd, Llundain a Brwsel.

## Y camau gweithredu

Gellid gweithredu mewn cyfres o gamau graddol, fel a ganlyn:

*Deall y goblygiadau* – Asesiad cynhwysfawr o'r goblygiadau i Gymru o ran polisi, arian, deddfwriaeth a'r cyfansoddiad. Defnyddio arbenigedd y Comisiwn a'r Llywodraeth, ac arbenigedd o'r sector academaidd a'r trydydd sector i gyflawni hyn. Gallai gynnull panel arbenigol i gynorthwyo â'r agwedd hon ar ei waith.

*Deall y camau ymarferol* – Pan fydd maint a manylion y goblygiadau yn ddealladwy, gallai'r Pwyllgor edrych ar yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n ddigonol ac y gweithredir arnynt yn ystod y trafodaethau i adael yr UE. I wneud hynny, byddai'n craffu ar strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r broses hon a byddai hefyd, os oes angen, yn argymell dulliau amgen.

*Deall buddiannau Cymru* – Gallai'r Pwyllgor fod â rhan gadarnhaol o ran bod yn llwyfan ar gyfer deialog rhwng y rhanddeiliaid a'r trafodaethau gadael, gan sicrhau y caiff safbwyntiau'r rhanddeiliaid eu clywed, a rhoi gwybod, at ddibenion craffu, am y rhai sy'n ymwneud â'r trafodaethau. Yn ogystal, gall fwydo cynnydd yn ôl wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt a gallai hynny

helpu i sicrhau bod y rhanddeiliaid yn dal i gael eu cynnwys a bod y Cynulliad ar y blaen o ran cynrychioli pobl Cymru.

*Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif* - Gallai'r Pwyllgor ddefnyddio'r wybodaeth a gafodd yng nghyfnodau cynharaf ei waith i graffu ar waith Llywodraeth Cymru a dylanwadu ar y broses adael.

Drwyddi draw, byddai'r sylw ar sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bobl Cymru.

Lle bo pwyllgor yn gallu cefnogi Llywodraeth Cymru, gallai'r gymeradwyaeth drawsbleidiol hon gryfhau sefyllfa Cymru. Os bydd pwyllgor yn gwneud beirniadaeth adeiladol, gallai hyn hefyd gryfhau'r posibilrwydd o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer Cymru os bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu arnynt.

Gallai'r gwaith i ddeall y goblygiadau ac i gynnwys rhanddeiliaid ddechrau ar unwaith. Mae'n gyfle i wneud y Cynulliad yn fforwm i drafod materion sy'n benodol i Gymru o ran ymadawiad y DU o'r UE.

Bydd pwyllgorau eraill yn awyddus i archwilio goblygiadau'r trafodaethau ar gyfer polisi domestig. Gallai'r pwyllgor hwn gydlynu'r gwaith hwnnw a defnyddio hynny i ategu ei waith ei hun (yn hytrach na dyblygu). Noda'r Pwyllgor Busnes y bydd Fforwm y Cadeiryddion yn trafod hyn yn ystod tymor yr hydref.

Er mwyn cael y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y gwaith hwn, bydd angen i'r Pwyllgor (a'r Cadeirydd yn benodol) sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys mewn rhwydweithiau rhyngseneddol megis fforwm EC-UK, bod ganddo ddealltwriaeth drylwyr o'r hyn sy'n digwydd ym Mrwsel ac yn Llundain a'i fod mewn sefyllfa i ymateb yn rhwydd a chyflym wrth i bethau ddatblygu.

Gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried a ddylai fod yn ofynnol i'r Pwyllgor hwn roi adroddiad i'r Cynulliad yn rheolaidd.

**Deddfwriaeth Ychwanegol**

Gallai’r Pwyllgor hwn graffu ar ddeddfwriaeth, mewn unrhyw faes pwnc a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes, os nad oes digon o gapasiti i graffu ar y ddeddfwriaeth honno o fewn strwythur presennol y pwyllgorau.

Byddai hefyd yn rhesymegol i roi'r cyfrifoldebau am ddeddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd i'r Pwyllgor hwn. Ar hyn o bryd mae'n rhan o waith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Nid oes dim i atal y Pwyllgor Busnes rhag adolygu'r trefniadau hyn yn y dyfodol.

**Cylch gwaith diwygiedig a gynigir gan y Pwyllgor Busnes i’r Cynulliad**

**Mae’r Pwyllgor Busnes yn cynnig y cylch gwaith a ganlyn**:

1. Archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd ac yn y trefniadau o fewn y DU ar ôl gadael ar gyfer yr agweddau perthnasol ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth.
2. Cydlynu gweithgareddau ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt 1 uchod.
3. Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11.
4. Ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Bydd angen newid cyfatebol hefyd i gylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon